

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	30 Mawrth 021
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	24 Ebrill 2021

PWNC

Eitem 6:TREFNIADAU CWYNION A GWELLA GWASANAETH Y CYNGOR

PENDERFYNIAD

- I. Mabwysiadwyd trefn gwynion newydd i'r Cyngor yn unol ag Atodiad 1.
 - II. Dynodwyd Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol fel y Swyddog Cyfrifol.
 - III. Derbyniwyd yr adroddiadau blynyddol a Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon
-

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bu i'r Cyngor fabwysiadau polisi cwynion corfforaethol cyfredol yn ôl yn 2014. Mynegwyd fod Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019 wedi cyflwyno sail statudol i drefniadau cwynion darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mynegwyd ei fod yn galluogi'r Ombwdsmon i lunio gweithdrefn gwynion enghreifftiol a gosod dyletswydd ar awdurdodau i sicrhau bod trefniadau sy'n cyd-fynd â'r weithdrefn.

Mynegwyd fod yr Ombwdsmon bellach wedi cyhoeddi proses enghreifftiol ac wedi'i hanfon at ddarparwyr, ac mae'n ofynnol i awdurdodau gyflwyno eu gweithdrefnau yn ymdrin â chwynion i'r Ombwdsmon erbyn 31 Mawrth 2021.

Mae'n ofyniad i'r Cyngor adrodd yn flynyddol ar gwynion ac i gyflwyno Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	30 Mawrth 021
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	24 Ebrill 2021

PWNC

Eitem 7:EGWYDDORION ECONOMI YMWELD CYNALIADWY GWYNEDD

PENDERFYNIAD

Cytunwyd ar Egwyddorion Economi Cynaliadwy Gwynedd ar sail drafft er mwyn cychwyn ar y broses ymgynghori gyda trigolion a busnesau Gwynedd.

Cytunwyd i barhau trafodaethau ar strwythur i weithredu'r egwyddorion i'r dyfodol gyda Pharc Cenedlaethol Eryri ac unrhyw bartner perthnasol arall.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mynegwyd fod y maes twristiaeth yn un o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor. Ychwanegwyd fod trafodaethau wedi eu cynnal i ddatblygu Egwyddorion Economi Ymweld newydd ar gyfer y sir, a bod cyfnod Covid-19 a'r effaith ar yr economi wedi atgyfnerthu'r angen i adolygu a chytuno ar egwyddorion newydd ar gyfer y dyfodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
